



RhannuCeirCaerdydd.com

Cylchlythyr

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 3722

Hydref 2009

Rhifyn 12

Croeso i gylchlythyr hydref RhannuCeirCaerdydd.com



Cynllun Beic Caerdydd

Cafodd y cynllun 'Beic Caerdydd' newydd ei lansio'n swyddogol yn ystod Wythnos Symudedd Ewropeaidd (16 i 22 Medi). Bydd y cynllun tebyg i'r un ym Mharis, a'r cyntaf o'i fath i'w lansio yng Nghymru, yn caniatáu preswylwyr ac ymwelwyr i gofrestru a defnyddio un o fflyd o 70 o feiciau sydd wedi eu brandio'n arbennig i fod yn adnabyddus ac wedi eu lleoli mewn 35 gorsaf feiciau a leolir mewn mannau allweddol o gwmpas canol dinas Caerdydd a Bae Caerdydd. Gall defnyddwyr unai dalu ffi cofrestru blynyddol o £18 neu wneud cais am ffi cofrestru wythnosol o £5.

Ar ôl hynny, mae'r llogi am ddim am y 30 munud cyntaf a chodir tâl bob awr ar ôl hynny. Gellir casglu a gollwng y beiciau mewn unrhyw un o'r mannau llogi - nid oes angen eu dychwelyd i'w lleoliad gwreiddiol. Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru gyda chynllun Beic Caerdydd, ewch i www.OYBike.com.

Aelod newydd i RhannuCeirCaerdydd!



RhannuCeirCaerdydd

Mae RhannuCeirCaerdydd yn falch iawn o gyflwyno'r aelod sefydliadol diweddaraf, Coleg Glan Hafren. Coleg Glan Hafren, y degfed sefydliad i ymuno â Rhannu Ceir Caerdydd, yw coleg addysg bellach fwyaf Caerdydd. Mae wedi ei leoli dros bedwar safle, gydag 800 o gyrsiau a 13000 o fyfyrwyr, o bob gallu addysgol a chefnidir, ac ystod oedran o 16 i 80. Ym mis

Gorffennaf 2009 agorodd Coleg Glan Hafren ei gynllun Seiclo i'r Gwaith i'r staff. Prynodd dri deg pedwar o'r staff feiciau drwy'r cynllun. Rhoddir cyfle arall i brynu cyn y Nadolig. Mae llochesau beic newydd diogel yn cael eu gosod ar safleoedd y Parade a Trowbridge Road. Mae cawodydd eisoes ar safle Trowbridge Road ac mae cawodydd newydd ar gyfer beicwyr yn cael eu gosod yn y Parade. Mae gan y Coeg gynllun rheoli amgylcheddol, ac mae wedi ennill lefel 3 Draig Werdd ac yn gweithio tuag at lefel 4 ar hyn o bryd.

Grantiau Cynlluniau Teithio Dinas Trafnidiaeth Gynaliadwy

Yn y ddau rownd gyntaf o'r Grantiau Cynllun Teithio cafwyd nifer o geisiadau oddi wrth ystod eang o sefydliadau.

Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Sain Ffagan, Cymdeithas Dai Cadwyn, Savell Bird and Axon, Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Chanolfan Mileniwm Cymru sydd oll

wedi derbyn nawdd ar gyfer mesurau sy'n cynnwys lle cadw beiciau, gwobrau i ranwyr ceir, ymgyrchoedd marchnata yn hyrwyddo cronfa feiciau a theithio cynaliadwy. Go dda!

Newyddion UWIC RhannuCeirUWIC



Dim ond ar gyfer rhanwyr ceir y mae parcio ar gael i fyfyrwyr ar Gampws Llandaf, a gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr aelodaeth. Erbyn hyn mae gan gynllun rhannu ceir UWIC 600 aelod a 112 grŵp! Dros yr haf, bu UWIC yn diweddarau eu cronfa ddata rhannu ceir gan waredu'r aelodau nad ydynt yn actif mwyach. Mae tocynnau parcio atal twyll wedi eu cyhoeddi hefyd.

Beicio i UWIC (Bike2UWIC)



Mae Cynorthwy-ydd Cynllun Teithio UWIC, Menna Hawkins, wedi cymhwyso fel hyfforddwr seiclo erbyn hyn, ac mae hi'n cynorthwyo staff drwy ymuno â nhw ar eu taith o'r cartref i'r gwaith.

Ym mis Medi, cynhaliwyd pythefnos o frechwastau dyddiol am ddim i seiclwyr a cherddwyr. Roedd dros gant o staff wedi cymryd rhan. Ym mis Medi hefyd gwelwyd tîm o 12 o UWIC yn cymryd rhan yn nigwyddiad 10k Ymchwil yr Arennau. Roedd rhedeg i'r gwaith ac yn ystod eu hamserau cinio yn rhan o'u hamserlen hyfforddi! Ar ddiwedd mis Tachwedd bydd cronfa feiciau a chronfa geir UWIC a fydd ar gael yn cael eu lansio at ddefnydd staff.

Bws UWIC (UWIC Rider)
Mae Newyddion Teithio UWIC, sy'n hysbysebu Gwasanaeth Bws UWIC ac yn cynghori myfyrwyr i adael eu ceir gartref, wedi cael ei ddsbarthu unwaith eto i'r holl fyfyrwyr, ynghyd ag amserlenni newydd Bws UWIC. Mae gwerthiant Bws UWIC i fyny bron i 2000 nawr. Mae UWIC hefyd yn ystyried ychwanegu bws siopa gyda'r nos at eu



gwasanaethau, ar ôl i ganlyniadau arolwg nodi taw dyma un o'r prif resymau pam fo myfyrwyr yn dod â char i'r brifysgol. Mae tocyn Bws Cyn-fyfyrwyr UWIC yn cael ei ystyried er mwyn ceisio sicrhau bod graddedigion UWIC yn parhau i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Newyddion Felindre

Gwobrwywyd Felindre gyda Grant Canolfannau Hyfforddi Diogel er mwyn cefnogi nifer o fesurau rhannu a theithio actif, er enghraifft gwobr fisol i ranwyr ceir.

Newyddion Hyder

Yn ddiweddar cwblhaodd Hyder arolwg cynllun teithio swyddfa ac maent yn astudio'r canlyniadau ar hyn o bryd.

Newyddion Cyngor Caerdydd

Mae'r ail ffenestr brynu ar gyfer cynllun seiclo i'r gwaith y Cyngor ar agor ar hyn o bryd, gyda sioeau teithio yn cael eu cynnal ledled y Cyngor gan y darparwyr Cycle Solutions. Mae'r cynllun seiclo i'r gwaith yn caniatáu cyflogwyr i arbed hyd at 48% o'r gost am feic ac ychwanegion newydd. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar Gynllun Teithio diweddaraf Cyngor Caerdydd, ar gyfer safle Lamby Way.

Newyddion CMC

Yn ystod 2009 mae gweithgareddau cynllunio teithio wedi mynd o Nerth i Nerth yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Gosodwyd nifer o gyraeddiadau a mentrau allweddol yn eu lle yn ystod y flwyddyn.

Gweithio gyda phartneriaid allweddol

Yn y Ganolfan lansiodd Strategaeth Gerdded a Seiclo Llywodraeth cynulliad Cymru ac arweinlyfr Teithio Actif y Gweithle Sustrans ym mis Chwefror 2009.

Cefnogi Seiclo

Lansiodd y Ganolfan ei gynllun cronfa feiciau ym mis Chwefror 2009. Mae dyddiau seiclo i'r gwaith wedi eu trefnu ar y cyd â Hyfforddi Seiclo Cymru yn ogystal â sesiynau gwybodaeth a chyngor ar seiclo. Mewn ymgais i hyrwyddo Grŵp Defnyddwyr Beic y Ganolfan ymhlith gweithwyr a chodi arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru, seiclodd grŵp o staff yn ddiweddar ar hyd Taith Taf o Aberhonddu i Fae Caerdydd. Cwblhaodd y tîm y daith 55 milltir o hyd cyn y gwyll, a, diolch i arian cyfatebol oddi wrth Barclays, codwyd £700 er budd y Ganolfan fel rhan o 5ed Apêl Pen Blwydd yr elusen.

Grantiau Cynllun Teithio Canolfannau Hyfforddi Diogel

Ymgeisiodd Canolfan Mileniwm Cymru am grant, ac mae'n falch o gyhoeddi y bu'n llwyddiannus yn ennill grant ar gyfer Cynllun Grant Cynllun Teithio Dinas Deithio Gynaliadwy i uwchraddio'i chyfleusterau parcio a darparu 30 o lefydd ychwanegol a llochesau beic



ychwanegol. Fel rhan o'r broses arolwg cynllun teithio mae'r Ganolfan ar hyn o bryd yn cynnal arolwg o'r staff â'u harferion teithio a gweithio. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd nodedig yn y nifer o bobl fydd yn dewis opsiynau teithio cynaliadwy.

2010

Mae'r Ganolfan yn edrych ymlaen at 2010 wrth i ni barhau i osod mentrau cyfredol yn eu lle, ac yn edrych tuag at wella marchnata'r cynllun teithio drwy lawlyfr amgylcheddol arfaethedig i staff, yn ogystal â sgrin wybodaeth ger ardal drws y llwyfan.

Mae'r Ganolfan yn parhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd, Sustrans a Hyfforddi Beiciau Cymru i hyrwyddo arfer gorau a rhannu profiadau, hoffem estyn ein diolchiadau i'r sefydliadau hyn am eu cyfraniad amhrisiadwy. Dros y deuddeg mis nesaf ymchwilir i'r posibilrwydd o estyn ein cysylltiadau i gynnwys sefydliadau eraill. Mae'r diddordeb yn y cynllun cyflog-benodol a gafodd ei gynllunio i helpu pobl brynu beic, gyda'r bwriad o annog mwy o weithwyr i seiclo i'r gwaith, gan hyrwyddo ffordd o fyw iach a theithio cynaliadwy, wedi bod yn galonogol.

Rhannu Ceir

Mae'r Ganolfan yn parhau i danysgrifio i gynllun Rhannu Ceir Cyngor Caerdydd, i annog rhagor o gyflogai ar draws yr adeilad, gan gynnwys preswylwyr, i leihau eu hól-troed carbon. Er mwyn annog aelodau cynulleidfa i wneud y defnydd lleiaf o geir, a manteisio ar yr opsiynau teithio cynaliadwy, mae'r ganolfan yn hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus a'r cynllun rhannu ceir rhanbarthol, a weithredir gan Gynghrair Drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, sewtacarshare.com ar ei wefan.

Teithio yn 2010

P'un ai'n ceisio cynilo at y Nadolig neu ar gyfer eich gwyliau nesaf neu'n meddwl gwneud rhagor o ymarfer corff fel eich adduned Blwyddyn Newydd, efallai taw newid eich ffordd o deithio yw'r ateb. Gall rhannu ceir gyfrannu'r sylweddol at ostwng eich biliau tanwydd - yn ogystal ag arbed costau traul ar eich car, os byddwch yn rhannu'r gyrru. Gall tocynnau tymor trafndiaeth gyhoeddus roi gwell gwerth am arian i chi os ydych yn deithiwr rheolaidd. Er mwyn canfod faint mae eich car yn ei gostio i chi, rhowch gynnig ar y Cyfrifiannell Costau Teithio Car:

www.carplus.org.uk/excel/Add_up_your_travel_costs.xls
http://www.carplus.org.uk/excel/Add_up_your_travel_costs.xls
http://www.carplus.org.uk/excel/Add_up_your_travel_costs.xls

[excel/Add_up_your_travel_costs.xls](http://www.nationalrail.co.uk)> Er mwyn canfod faint fyddai tocyn tymor yn ei gostio ar gyfer teithio ar drên, rhowch gynnig ar gyfrifiannell Tocyn Tymor Rheilffordd Genedlaethol www.nationalrail.co.uk Am deithiau bws, mae gan Traveline Cymru fanylion o'r holl weithredwyr trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru a fydd â gwybodaeth am docynnau tymor a thocynnau i'w prynu mewn niferoedd: www.traveline-cymru.info Yn ogystal â helpu i ostwng eich costau teithio, gall defnyddio dulliau actif o deithio - cerdded, seiclo neu hyd yn oed redeg fod yn ffyrdd delfrydol o gael yr ymarfer corff dyddiol sydd

ei angen arnom ni oll i gadw'n iach. Cofiwch fod cerdded neu seiclo i'ch gorsaf neu arosfan bws yn ymarfer corff hefyd! Er mwyn cynllunio'ch taith, beth am ddefnyddio mapiau ar-lein Sustrans. www.sustrans.org.uk Os yw'n dro byd ers i chi seiclo ac mae angen ailgynefino arnoch, mae gan CTC restr o'r holl hyfforddwyr seiclo cofrestredig: www.CTC.org.uk.

**Gwybodaeth Ddefnyddiol:****Cynllunio ar gyfer Teithio:**

Traveline Cymru: www.traveline-cymru.info
 (ffôn 0871 200 22 33)

Cerdded a seiclo:

Sustrans: www.sustrans.org.uk
 Y Cerddwyr: www.ramblers.org.uk/wales/

Cynlluniau Teithio:

www.keepingcardiffmoving.co.uk/travelplans
 e-bost: travelplans@caerdydd.gov.uk

Cynllun Beic Caerdydd:

www.OYBike.com

Cynlluniau Seiclo i'r Gwaith:

www.dft.gov.uk/sustainable/cycle/cycletoworkguide

Cycle Solutions:

www.cyclesolutions.co.uk/cc

Poster Newydd

Cynilo ar gyfer y Nadolig neu eich gwyliau haf nesaf? Ewch i RhannuCeirCaerdydd i ostwng eich costau teithio!

Arbed ar gyfer y Nadolig?

Ewch i RhannuCeirCaerdydd i ddod o hyd i rywun i rannu'ch costau teithio gyda chi!

Mae'n cynnwys siwrielau trafndiaeth gyhoeddus, cerdded, seiclo a thacsi hefyd!